

Cofion a Chyfarchion

- Mae Bessie Roberts a Morfudd Roberts (Llanefydd) yn parhau yn yr Inffymari, fel ag y mae Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno. Diolchwn i Dduw am y tri, gan hyderu y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen. Mae eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Parhawn i gofio amdanynt oll a dymunwn wellhad llwyr a buan iddynt.
- Cofiw'n hefyd am y rhai sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf, a chyflwynwn hwy yn dyner i ofal yr Arglwydd. Gweddiwn y bydd pawb sy'n galaru am anwyliaid yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Cwil ac Eirwen Roberts (Hiraethog) ar achlysur dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol.

Côr y Synod, Mizoram

Bydd cyfle i glywed Côr y Synod, Mizoram mewn cyngerdd mawreddog yng Nghaerdydd, nos Sadwrn, Gorffennaf 5ed. Dan nawdd Eisteddfod Llangollen, fe fydd y Côr o Mizoram yn perfformio gyda Chôr CF1 ac yn rhannu llwyfan gyda chantorion a cherddorion eraill a fydd yn dod i'r Eisteddfod, gan gynnwys Noa Stewart o America sy'n ganwr ifanc, byd-enwog.

Os oes rhai ohonoch yn dymuno bod yn bresennol yn y Cyngerdd ac angen eich cludo i Gaerdydd ac yn ôl – neu os medrwch gynnig lle i rhywun ddod hefo chi – wnewch chi gysylltu hefo ni, os gwelwch yn dda, er mwyn i ni fedru archebu tocynnau ayb. Diolch yn fawr.

I ddod

- **YSGOL HAF Y WEINIDOGAETH IACHAU** ar Mehefin 30ain–Gorffennaf 2il yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd SY16 4AJ. Cysylltwch â Marian Lloyd Jones, Gwylfa, Allt-Tŷ-Gwyn, Rhosllannerchrugog, Wrecsam LL14 1EL / (01978) 846151 / geraint.w.jones@btinternet.com am fwy o wybodaeth.
- **ADUNIAD LLANW** nos Wener a dydd Sadwrn, Medi 26ain-27ain yn y Bala. Penwythnos i'r teulu cyfan ac i unigolion o bob oed.

Darllenid Wythnos Nesaf

Titus 3: 1-8 (BCND tud.237 / BCN: tud.218)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8^{fed} Mehefin 2014

Darllenid y Dydd

Eseia 12

(BCND tud.630 / BCN: tud.575)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da ar Sul y Pentecost! Mae'n 50 diwrnod ers y Pasg ac fe gofiwn heddiw am dywalltiad yr Ysbryd Glân ar y disgyblion cynnar ac am y cyhoeddi grymus fod Iesu yn Arglwydd a'i fod yn fyw! Cofiw'n hefyd i 3,000 o wrandawyr ddod o dan argyhoeddiad yr Ysbryd a throi at Pedr am arweiniad. “Beth a wnawn ni?” oedd eu cwestiwn wrth iddynt sylweddoli eu bod wedi croeshoelio Iesu, y Meseia, a Mab Duw. A dyma nhw'n cael yr ateb ar ei ben gan Pedr “Edifarhewch, a bedyddier pob un ohonoch yn enw Iesu Grist er maddeuant pechodau ac fe dderbyniwch yr Ysbryd Glân yn rhodd.” (Actau 2:38)

Mae'r addewid yr un fath i ni ac i bawb sydd o dan argyhoeddiad o droseddu yn erbyn Duw. Yr addewid fawr o faddeuant ac o dderbyniad yn Iesu sy'n dod fel ton o heddwch i'r enaid, a phrawf maddeuant yn y galon wedyn yn cael ei selio i ni gan yr Ysbryd Glân. Crefydd heb ei grym yw Cristnogaeth heb yr Ysbryd Glân. Y mae dydd y Pentecost yn ddydd o ddathlu mawr i'r eglwys oherwydd dyma ddechrau ei thaith allan i'r holl fyd ac ym mhob iaith!

A fyddech chi yn adnabod presenoldeb yr Ysbryd mewn oedfa? Un nodwedd bwysig fel y gwelwn o hanes dydd y Pentecost ydi'r ymholiad taer am faddeuant. Ydi hyn yn nodwedd o'n gweddiâu a'n hoedfaon? Yna daw'r elfen o glywed yr ateb di-flewyn ar dafod. Rhaid i mi ofyn i mi fy hun wrth bregethu – ydw i yn gwneud yr ateb yn ddigon plaen fel y gwnaeth Pedr i'r rhai sy'n gwrando dan argyhoeddiad ac sy'n ymholi beth i'w wneud?

Yna daw'r dyrfa i gael eu bedyddio yn enw Iesu ac i dderbyn rhodd Duw o'r Ysbryd Glân – yn union fel yr oedd Iesu wedi'i addo. Does dim rhaid ail-fedyddio yn ein hachos ni a fedyddiwyd er yn blant ond fe fyddai'n fendith aruthrol gweld pobl yn derbyn yr Ysbryd yn fedydd oddi wrth Dduw. Prawf o hynny fyddai clywed ein gilydd yn dweud am Iesu: ‘fy Arglwydd a'm Duw!’

Rhywbeth sy'n perthyn i orffennol pobl eraill yn aml ydi'r profiad o fod mewn diwygiad mawr ysbrydol. Ond y mae'r Ysbryd ar waith o hyd yn ein plith. Yr Ysbryd sy'n gyfrifol am ddod â phobl ar eu gliniau mewn gweddiâu edifeiriol, a'r Ysbryd sy'n rhoi moliant am berson Iesu ac sy'n gogoneddu ei waith trosom yng nghalonau'n ffrindiau a'n teuluoedd. Yr Ysbryd sy'n diddanu'r anghenus a'r clwyfus a diolchwn i Dduw amdano wrth ddathlu heddiw eto yn nydd ei ras.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma
- **Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Pïsgah, Llandegla am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2013-14. Arweinydd: Nia Evans, Talwrn. Croeso cynnes i bawb.
 - **Oedfa'r Fro: Oedfa Fawl y Pentecost gydag Ieuenticid CIC** yn Llansannan am 6.00.
- Llun
- **Christian Viewpoint** – i'r merched y tro hwn gyda Vinny Commons yn cyflwyno 'The Potter and the Clay' yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe.
- Iau
- **Hyfforddiant yr Henaduriaeth** "Ewch yn ei Enw Ef" am 7.00 yn Festri Capel Rehoboth, Prestatyn. Arweinir gan Dr Elwyn Richards, Cyfarwyddwr Hyfforddiant Eglwys Bresbyteriaid Cymru. Bydd cyfle hefyd i ystyried y camau nesaf ac unrhyw hyfforddiant pellach fydd ei angen. Croeso cynnes i holl aelodau eglwysy'r Henaduriaeth.
- Gwener - Sadwrn
- **Penwythnos Merched** yn y Bala. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565.
- Sul nesaf
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth
- Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir "Wedi'r Oedfa" yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 8.00 yng nghwmni Genod y Gân ac artistiaid lleol. Croeso cynnes i bawb.

Llansannan

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau
- Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf
- Bydd Alun Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma
- Bydd aelodau Capel Peniel yn mynd ar bererindod, a bydd aelodau Capel Saron yn mynd ar drip i Park Hall, Croesoswallt.
- Sul nesaf
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma
- Bydd y Parch. Hywel Edwards yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.
- Sul nesaf
- *SYLWCH AR Y NEWID YN Nhrefniadau'r DDAU SUL NESAF*** Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith **yng Nghefn Berain** am 2.00 pryd y bydd Owain a Nia yn cyflwyno Martha i gael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul wedyn (22ain)
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith **yn Llanefydd** am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.